Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Clocaenog

**Ysgol Carreg Emlyn**
**Clocaenog**
**Sir Ddinbych**
**LL15 2AY**

**Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Clocaenog

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Clocaenog |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Clocaenog |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gwawr Davies |
| Person â gofal | Manon Ifans |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun a Dydd Mercher 9.00-11.00 (sesiwn bore) Dydd Llun i Gwener 11.30-3.00 (sesiwn prynhawn) |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 22/06/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/05/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Dd/b** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr ymarferwyr yn darparu profiadau eang i blant werthfawrogi a pharchu cydraddoldeb a diwylliannau eraill

A2 Sicrhau bod rheolwyr yn ffurfioli'r broses oruchwylio gyda'r holl ymarferwyr

A3 Sicrhau bod yr asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n fwy treiddgar

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan blant lais cryf ac maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn gyson. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud yn hyderus o amgylch yr ardaloedd dysgu tu mewn a thu allan. Mae'r plant yn helpu eu hunain i adnoddau o fewn yr ardaloedd chwarae yn effeithiol, er enghraifft trwy baentio wrth îsl mawr, chwarae yn y twba tywod a dŵr neu bobi cacennau yn y gegin fwd. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hystyried yn llawn. Er enghraifft, mae'r plant ieuengaf yn dewis os ydynt eisiau eistedd gyda'r gweddill yn ystod y sesiwn carped neu eisiau chwarae'n dawel ac ymuno pan maent yn barod.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn setlo'n gyflym ac yn hapus a chartrefol yn y lleoliad. Mae'r plant ieuengaf yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni a'u gofalwyr ac maent yn teimlo'n ddiogel yng ngofal yr ymarferwyr. Mae bron bob plentyn yn mwynhau yng nghwmni'r ymarferwyr a'u ffrindiau. Maent yn dangos boddhad wrth iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o'u lle a'u pwysigrwydd yn eu grŵp o ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cydweithio'n dda ac yn hyderus i ofyn i'w gilydd ac i'r ymarferwyr am gymorth, er enghraifft wrth i blentyn ofyn i'w ffrind am help i drosglwyddo'r dŵr o'r twba i'r gweithgaredd archwilio.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio'n dda ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol wrth sgwrsio a rhannu yn eu chwarae. Maent yn parchu teimladau a diddordebau eraill ac yn dysgu i gymryd tro, er enghraifft wrth i blentyn gynnig ffedog i bob un o'i ffrindiau fel y gallant chwarae a thoes. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu

perthnasoedd agos a chynnes â'r ymarferwyr ac yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr. Er enghraifft, wrth i grŵp o blant fod yn awyddus i ddangos y tŷ bach twt ar waelod yr ardal allanol i ymwelwyr, tra bod eraill yn falch i ddangos eu cacennau mwd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfforddus a hyderus i ofyn cwestiynau i'r ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn frwdfrydig yn eu chwarae. Maent yn mwynhau canolbwyntio am gyfnodau addas wrth lenwi cwpanau o dywod a'u trosglwyddo i gwpanau gwahanol faint, tra bod eraill yn dyfalbarhau i glymu tâp o amgylch bolardiau ar waelod yr ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus i arbrofi ac i ddarganfod drostynt eu hunain yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau symud adnoddau o un ardal i'r llall ac arbrofi i weld beth sy'n digwydd wrth gymysgu tywod, dŵr a phridd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da wrth ddefnyddio'r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo, gwisgo ffedogau a hongian eu cotiau a'u bagiau wrth iddynt gyrraedd y gwasanaeth. Maent yn ymfalchïo yn yr hyn maent yn ei gyflawni, er enghraifft wrth iddynt lwyddo i dorri banana ar gyfer byrbryd ac wrth helpu i wneud y toes.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch y plant yn llwyddiannus. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol ac maent yn cadw cofnodion o ddamweiniau a digwyddiadau yn drefnus. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda iawn o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn hyrwyddo arferion bwyta ac yfed iach trwy ddarparu byrbrydau maethlon ac yn hysbysu'r rhieni yn wythnosol o'r fwydlen. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl â'r plant ac maent yn eu trin yn garedig. Wrth i'r plant gyrraedd, maent yn eu croesawu mewn modd cynnes a charedig ac yn rhyngweithio'n naturiol wrth esbonio a chefnogi'r plant i barchu ei gilydd. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant i ehangu eu medrau llafar ac yn hybu'r Gymraeg trwy fodelu geirfa a brawddegau i'r plant eu dilyn. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn dathlu llwyddiannau'r plant yn gyson gan roi clod iddynt am eu hymdrechion. Mae ymarferwyr yn cynnig ystod dda o weithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae yr ardaloedd tu fewn a thu allan, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r plant. Mae ymarferwyr yn hollol gyson a theg wrth reoli ymddygiad ac yn ymwybodol bod angen iddynt fod yn gliriach o ran ffiniau a disgwyliadau yn ystod chwarae rhydd y tu allan. Maent yn fodelau rôl cadarnhaol ac yn sicrhau bod plant yn ymwybodol o'r angen i rannu a thrin eraill yn garedig, gan annog plant sut i ymddiheuro i ffrindiau, pan fo angen.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn, yn parchu eu diddordebau, hoffterau a'u gofynion personol. Mae ganddynt weithdrefnau a rhwydweithiau pwrpasol ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn darparu naws ac amgylchedd sy'n meithrin gofal ac yn dangos parch ar bob adeg. Mae ymarferwyr yn diwallu anghenion unigol y plant yn dda trwy gynllunio tasgau yn unol â'u diddordebau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn ymateb yn greadigol i ddiddordeb ychydig o blant mewn tractorau trwy ddarparu cyfleoedd iddynt baentio gan ddefnyddio olwynion tractorau bach. Maent yn cofnodi cynnydd y plant yn llwyddiannus, yn nodi camau nesaf yn eu datblygiad o fewn y cynllunio. Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol i adnabod a chefnogi anghenion unigol plant. Maent yn gweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol i sicrhau bod plant yn cael cymorth effeithiol yn ôl eu hanghenion.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau cyffrous gyda chydbwysedd priodol rhwng profiadau dysgu a ddewisir gan oedolion a rhai sy'n deillio o syniadau'r plant. Maent yn addasu cynnwys eu cwricwlwm a'u trefniadau addysgu yn bwrpasol er mwyn adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Mae ymarferwyr yn rhoi sylw buddiol i gefnogi medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y plant wrth gynllunio profiadau dysgu a chwarae buddiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau yn effeithiol.

Un o gryfderau'r lleoliad yw'r berthynas hyfryd rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu yn llwyddiannus wrth gefnogi dysgu a chwarae. Maent yn chwarae ochr yn ochr â phlant ar adegau ac yn ymyrryd mewn modd amserol ac effeithiol i atgyfnerthu dysgu annibynnol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod dda o brofiadau dysgu sy'n diwallu anghenion bron bob plentyn yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant rannu eu syniadau er mwyn sicrhau eu bod wrth wraidd y cynllunio. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr wedi creu gorsaf golchi ceir yn dilyn cais gan blentyn fel rhan o'u thema ar drafnidiaeth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig gan ddangos diddordeb yn eu dysgu, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau.

Mae bron bob ymarferydd yn datblygu medrau llafar plant yn llwyddiannus trwy gyflwyno patrymau iaith a geirfa yn gyson. Maent yn sgwrsio'n naturiol â'r plant yn rheolaidd ac yn defnyddio holi effeithiol er mwyn ymestyn eu hiaith a'u medrau meddwl yn llwyddiannus. Mae'r rhyngweithio buddiol hwn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau iaith y rhan fwyaf o blant.

Mae ymarferwyr yn annog plant i gymryd diddordeb mewn storïau trwy greu ardal lyfrau groesawgar i blant. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn awyddus i ddewis llyfr ac i bori trwy'r tudalennau neu wrando ar stori. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau darllen cynnar y rhan fwyaf o blant wrth iddynt drin llyfrau fel darllenwyr hyderus. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau digidol plant ac yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt ddefnyddio ystod o gyfarpar i chwarae ac i gefnogi eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant adeiladu ar eu medrau rhifedd yn rheolaidd, gan gynnwys ymgymryd â phrofiadau dysgu sy'n cryfhau eu dealltwriaeth o siâp, patrwm a chyfri. Maent yn annog y plant i ddefnyddio'u medrau mewn sefyllfaoedd go iawn, er enghraifft wrth iddynt ddangos hyder yn cyfri nifer yr oedolion a phlant sy'n bresennol yn ystod amser cylch. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cynllunio darpariaeth fuddiol i ddatblygu medrau creadigol y plant, gan roi sylw da i'r broses ac nid ar y cynnyrch terfynol. O ganlyniad, mae oriel y plant yn arddangos darluniau ysgogol sy'n cysylltu'n effeithiol â diddordeb y plant mewn trafnidiaeth.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth dda o draddodiadau a dathliadau diwylliannau Cymreig, er enghraifft wrth ymuno ag orymdaith yr Urdd, gyda phlant wedi creu eu baner eu hunain. Mae gan y lleoliad ddarpariaeth addas ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o ymwelwyr i'r lleoliad er mwyn cyfoethogi'r dysgu, gan gynnwys cael profiadau uniongyrchol o sut i drin a gofalu am anifeiliaid. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i blant ddysgu am y byd ehangach a phwysigrwydd dangos parch at amrywiaeth a diwylliannau eraill.

Mae ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau a gwybodaeth asesu yn effeithiol i gynllunio cyfleoedd buddiol i blant adeiladu ar eu medrau a'u dealltwriaeth. O ganlyniad, mae plant yn llwyddo i gyflawni'r camau nesaf yn eu dysgu yn gyson dda.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn sicrhau amgylchedd glân a diogel iawn ar gyfer y plant. Nid oes modd i ymwelwyr gael mynediad i'r lleoliad na'r ardal allanol oni bai bod yr arweinydd neu'r ymarferwyr yn rhoi mynediad iddynt. Gofynnir i ymwelwyr mewngofnodi'n brydlon i adeilad yr ysgol ac i'r lleoliad a chedwir cofnodion o hyn ar y safle. Mae'r arweinydd yn cadw cofrestr plant ac ymarferwyr sy'n cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael. Mae cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cadw cofnodion yn drefnus. Mae'r arweinydd yn sicrhau ei bod yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, sy'n cael eu cofnodi a'u dadansoddi. Maent yn sicrhau y caiff y cyfarpar diogelwch tân ei brofi yn unol â'r gofynion. Mae'r arweinydd yn trefnu prosesau glanhau rheolaidd ac mae eu harferion rheoli heintiau da yn lleihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y plant. Mae'n sicrhau bod ystod o hysbysebion a phosteri pwrpasol o gwmpas y lleoliad, sy'n cefnogi eu gweithdrefnau clir, fel siart lif ynglŷn â threfniadau diogelu plant. Mae arweinwyr yn adolygu asesiadau risg yn gyson. Fodd bynnag, nid yw asesiadau risg bob amser yn ddigon penodol i amlygu'r risgiau mewn perthynas â threfniadau penodol.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd o ansawdd sy'n groesawgar a chynnes. Mae'n sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cynnig preifatrwydd a digon o le ar gyfer  nifer y plant sy'n mynychu bob sesiwn. Mae toiledau addas ar gael ynghyd â chyfleusterau pwrpasol i olchi a sychu dwylo sy'n cynnig cyfleoedd i hyrwyddo annibyniaeth y plant. Mae arweinwyr wedi creu amgylchedd diogel yn yr ardal tu allan sy'n llawn gweithgareddau sy'n denu diddordeb y plant. Yn ogystal, maent wedi ystyried yr angen am gyfarpar ac offer sy'n rhoi'r cyfle i'r plant i ymestyn a dringo gan ddatblygu eu medrau corfforol.

Mae’r arweinydd yn darparu adnoddau amrywiol a phwrpasol i blant ar gyfer eu datblygiad a’u hoedran ac mae'r rhain wedi eu harddangos ar lefelau isel. O ganlyniad, mae gan blant fynediad i gyfarpar o safon, sy’n eu galluogi i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau. Er hyn, prin yw’r adnoddau fel gwisgoedd a llyfrau amlddiwylliannol er mwyn datblygu dealltwriaeth y plant o amrywiaeth a diwylliannau eraill.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinydd a’r pwyllgor rheoli yn mynegi gweledigaeth glir sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygiad a lles plant. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus i greu awyrgylch diogel a hapus i’r plant. Mae gan yr arweinydd berthynas waith dda ag aelodau’r pwyllgor rheoli. Mae trafodaethau a chyfarfodydd rheolaidd rhwng yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli yn cyfrannu'n werthfawr at gynnig darpariaeth o ansawdd.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau hunanwerthuso buddiol sy’n nodi’n glir gryfderau’r lleoliad a'r hyn sydd angen ei wella. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn drefnus ac yn canolbwyntio'n ddyfal ar ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol. Mae arweinwyr yn gweithio'n dda gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol ac asiantaethau eraill i ganfod ac ystyried barn rhieni wrth osod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn addasu a gwella’r ddarpariaeth yn gyson er mwyn cynnig profiadau cyffrous i ddiwallu anghenion y plant. Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn gwbl ymwybodol o'r blaenoriaethau gwella presennol ac yn deall eu rôl wrth gyflawni'r rhain. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol, gydag ymarferwyr yn gwneud eu gorau i ddatblygu'r ddarpariaeth, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad a lles y plant.

Mae’r arweinydd yn gosod disgwyliadau uchel ac mae ymarferwyr yn deall eu rolau yn llawn. Mae’r arweinydd yn cynnal sesiynau goruchwylio rheolaidd da sy'n nodi anghenion datblygu unigol ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw'r arweinydd yn derbyn cyfarfodydd goruchwylio mor drylwyr ac effeithiol sy'n arwain at gefnogaeth briodol i gyflawni’u rôl.

Mae arweinwyr yn cymryd camau buddiol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r rheoliadau a’r safonau gofynnol cenedlaethol fel dilyn prosesau recriwtio diogel ac amserol. Mae’r datganiad o bwrpas yn fuddiol ac yn amlinellu'n glir y gwasanaeth a gynigir. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ymarferwyr gymwysterau priodol i gyflawni eu swyddi, bod eu tystysgrifau statudol yn gyfredol a'u bod yn mynychu hyfforddiant pwrpasol i gefnogi anghenion y plant yn effeithiol. Er enghraifft, bu ymarferwyr ar hyfforddiant cynllunio i fagu hyder mewn cynllunio ymatebol sy'n ystyried llais plentyn.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o grantiau a chyllid ar gyfer prynu ystod dda o adnoddau, er enghraifft adnoddau naturiol i ddatblygu medrau ymchwilio'r plant. Yn ogystal, defnyddiwyd cyllid yn ddiweddar i sefydlu ystafell ddosbarth awyr agored i gefnogi profiadau dysgu'r plant.

Mae arweinwyr wedi sefydlu perthynas dda â rhieni ac yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd, gan gynnwys polisïau a digwyddiadau allweddol drwy system ddigidol a chylchlythyr rheolaidd. Mae arweinwyr yn atgyfnerthu polisi drws agored yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae rhieni yn canmol yr ymarferwyr ac maent yn falch

iawn o'r gwasanaeth. Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas lwyddiannus â'r ysgol sy'n cyfrannu at les a hyder plant, yn ogystal â sicrhau trefniadau trosglwyddo cadarn iddynt.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 24 Gorffennaf 2024